OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 559

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

## RHAN 3

Gweithgareddau y mae erthygl 4 (esemptio rhag yr angen am drwydded forol) yn gymwys iddynt ac amodau

### Cyfarwyddiadau diogelwch o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995

**8.** Mae erthygl 4 yn gymwys i weithgaredd a ymgymerir—

(a) gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pŵer o dan Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995(**1**) (cyfarwyddiadau diogelwch);

(b) gan unrhyw berson at y diben o gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan yr Atodlen honno; neu

(c) gan unrhyw berson at y diben o osgoi ymyrraeth â gweithredu a gyflawnwyd yn rhinwedd yr Atodlen honno.

(**1**) Mewnosodwyd adran 108A o Ddeddf Llongau Masnach 1995, sy'n rhoi effaith i Atodlen 3A, gan adran 1(1) o Ddeddf Diogelwch Morol 2003.